

Hanes Dwy Gragen

Ymunwch â Hazel a'i thywyswyr ysbrydol
ar Gyrch Stori trwy Barc Pont-y-pŵl!



Annwyl Gyrchwyr Stori,

Helô a chroeso!

Dyma un o sawl Cyrch Stori ledled de-ddwyrain Cymru, a ysgrifennwyd yn arbennig i CHI! Mae pob antur yn cyflwyno cymeriadau newydd sy'n archwilio eu hanes, eu byd natur a'u hadeiladau arbennig lleol – a heddiw, rydyn ni'n mynd i Lyfrgell a Pharc Pont-y-pŵl.

Wrth i chi ddilyn ôl troed ein cymeriadau, byddwch yn gwneud mwy na darllen y stori ... byddwch yn cymryd rhan ynddi. Bydd gweithgareddau difyr i'w cwblhau a syniadau grymus i'w harchwilio, wrth i'n hantur ddatgelu sut roedd pobl gyffredin, a mudiad protest o'r enw Siartiaeth, wedi helpu i newid y byd sy'n gyfarwydd i chi heddiw.

Ar ôl i chi gwblhau'r Cyrch Stori yma, bydd mwy yn aros i chi. Allwch chi gwblhau pob un?

FFEIL FFEITHIAU

Dau gan mlynedd yn ôl, dim ond 1 o bob 5 o ddynion (a dim menywod!) oedd yn cael pleidleisio mewn etholiadau, felly nid oedd y rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain yn gallu dylanwadu ar y deddfau a oedd yn ffurfio eu bywydau. Cytunodd mudiad a oedd yn tyfu o weithwyr cyffredin, fel glowyr, gweithwyr haearn, llafurwyr a siopwyr, fod hyn yn annheg ac fe greon nhw Siarter y Bobl ym 1838 i fynnu newid. Roedden nhw'n cael eu galw'n Siartwyr. Byddwn ni'n darganfod mwy am Siarter y Bobl yn y Cyrch Stori yma.

Mae'r Cych Stori yma'n digwydd o amgylch: Llyfrgell a Pharc Pont-y-pŵl, De-ddwyrain Cymru

Man cychwyn: Llyfrgell Pont-y-pŵl, Heol Hanbury, Pont-y-pŵl, NP4 6JL

Hyd: Tua 60–90 munud

Sut i gyrraedd:

- **Ar fws:** mae arosfannau ar Heol Hanbury a Stryd Clarence, ger y llyfrgell.
- **Mewn car:** mae lle parcio am ddim ar gael ar Lôn Rosemary, neu wrth Ganolfan Byw'n Egnïol Halo Pont-y-pŵl.
- **Ar droed:** defnyddiwch groesfannau i gerddwyr, lle bo'n bosibl.

Lefel gweithgarwch a hygyrchedd: Tro gwastad yn bennaf gyda meinciau i orffwys ar hyd y ffordd. Mae llethrau yn y Gerddi Eidalaidd (ar y ffordd i Arhosfan 2) a allai fod yn anaddas i rai cadeiriau olwyn.

Bydd arnoch angen:

- Pensil, pen neu ap nodiadau ar ffôn
- Rhywbeth cadarn i bwysu arno (byddai clipfwrdd neu lyfr nodiadau'n gweithio'n dda)
- Eich dychymyg
- Oedolyn sy'n awyddus i archwilio (rydyn ni'n argymhell hyn!)
- Dewisol: pensiliau lliw, creonau neu bennau ffelt. Fe allech liwio gartref, hefyd!

Hanes Dwy Gragen Map Cyrch Stori



Cyflwyno'ch Tywyswyr



Hazel

Mae hi'n dwlu edrych ar bobl yn y Gerddi Eidalaidd, yn enwedig os ydyn nhw'n darllen llyfr ar fenthyg o Lyfrgell Pont-y-pŵl.



George

Roedd e'n byw ym Mhont-y-pŵl ac yn gweithio oriau hir fel saer coed. Ym 1839, gorymdeithiodd gyda'r Siartwyr eraill yng Ngwrthryfel Casnewydd.



Molly

Roedd hi'n byw ym Mhlasty Parc Pont-y-pŵl, ac roedd ei gŵr cyfoethog yn berchen ar waith haearn a thunplat y dref. Roedd hi'n hoffi casglu cregyn.

“Helô, Hazel ydw i, a dwi’n dwlu ar lyfrau bron cymaint â chnau! Dyna pam y gwelwch chi fi’n aml yng nghoed y Gerddi Eidalaidd, yn agos i Lyfrgell Pont-y-pŵl. Dwi wrth fy modd yn gweld pa lyfrau mae pobl wedi’u benthycu. Weithiau, maen nhw’n eistedd ar fainc yn y parc i ddarllen, a dwi’n cael cip ar y darluniau dros eu hysgwydd.

“Mae fy hoff lyfrau gan yr awdur Fictoraidd, Charles Dickens. Fe ysgrifennodd storïau fel *A Christmas Carol* ac *Oliver Twist*. Fe gawson nhw eu cyhoeddi gyntaf mewn papur newydd, un bennod ar y tro, fel y gallai mwy o bobl fforddio eu darllen ... sy’n eithaf cŵl!”



FFEIL FFEITHIAU

Cyn i lyfrgelloedd cyhoeddus fodoli, ychydig iawn o lyfrau oedd ar gael i bobl dosbarth gweithio oherwydd eu bod nhw’n rhy ddrud. Dim ond Beibl oedd gan lawer o deuluoedd, a oedd yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i’r llall, ac efallai rhai llyfrynau stori byr a alwyd yn ‘llyfrau baledi’. Roedd y rhain yn cael eu gwerthu o ddrws i ddrws a gellid eu cyfnewid â chymdogion. Heddiw, fe allwch chi gael benthycu llyfrau, e-lyfrau a llyfrau llafar am ddim, os byddwch yn cofrestru ar gyfer cerdyn llyfrgell.

EICH TRO CHI

Fe allech feddwl bod darllen yn ffordd ryfedd o brotestio, ond yn y 19eg Ganrif, nid oedd rhai gwleidyddion a theuluoedd cyfoethog eisiau i bobl dosbarth gweithio ddysgu darllen ac ysgrifennu. Pam, tybed? Ysgrifennwch eich meddyliau.

Pa lyfr neu gomic a ddarllenoch chi ddiwethaf?

Beth oeddech chi'n ei hoffi amdano?

“Yn ogystal ag ymgyrchu dros hawliau gwleidyddol, roedd y Siartwyr eisiau i bobl gael addysg. Roedden nhw'n credu bod angen i gymunedau gael ysgolion a llyfrgelloedd. Yng nghyfarfodydd y Siartwyr, roedd papurau newyddion, barddoniaeth a storïau'n cael eu darllen yn uchel fel bod pawb yn gallu clywed. Efallai eu bod nhw'n darllen ychydig o Dickens, hyd yn oed?”



“Roedd ei gymeriadau'n dangos sut oedd bywyd yn wahanol iawn i'r cyfoethog a'r tlawd ym Mhrydain oes Fictoria. Does dim rhyfedd bod mudiadau protest fel Siartiaeth wedi digwydd!”

“Hoffech chi glywed stori Dickensaidd ... un y gallai'r awdur mawr ei hun fod wedi'i hysgrifennu? Mae wedi'i gosod yma ym Mhont-y-pŵl, ac mae'n ymwneud â'r bwlch rhwng un teulu cyfoethog a oedd yn byw ar ochr ddwyreiniol Afon Lwyd, a phobl gyffredin y dref a oedd yn byw ar yr ochr orllewinol.



“Roedd Siartwyr lleol yn byw ar yr ochr orllewinol, ac roedden nhw'n cael eu harwain gan ddyn o'r enw William Jones. Roedd yn wneuthurwr watshis a hefyd yn rhedeg tafarn lle'r oedd cyfarfodydd Siartiaeth yn cael eu cynnal.

“Enw'r stori yw *Hanes Dwy Gragen*, ond yn anffodus nid yw'n cynnwys fy hoff fath o gregyn ... sydd â chnau ynddyn nhw! I adrodd y stori, bydd angen i mi gael help dau ysbryd. Bydd yr un cyntaf yma cyn hir, gobeithio.”

EICH TRO CHI

DITECTIF STRYD

Ewch allan o Lyfrgell Pont-y-pŵl (os ydych chi ynddi) i'r palmant ac edrychwch i fyny ac i lawr Heol Hanbury. Pa adeiladau ydych chi'n sylwi arnyn nhw? Pa rai oedd yn bodoli yn ystod adeg Siartiaeth (y 1830au i'r 1850au), dybiwch chi?

Nawr, dewch o hyd i'r fynedfa i'r Gerddi Eidalaidd, rhwng y llyfrgell a'r gofeb ryfel. Mae meinciau yn y gerddi y gallech eistedd arnyn nhw, i ddarllen rhan nesaf ein Cyrch Stori.

“Edrychwch!” meddai Hazel, “Dyma ein hysbryd cyntaf, George. Mae’n cerdded ar hyd yr un llwybr yr arferai ei ddilyn adref o dafarn William Jones ar ôl cyfarfodydd y Siartwyr. Ef yw’r gragen gyntaf yn ein stori ... oherwydd ei gyfenw yw *SHELL!*”



“Helô, George. Beth yw’r pamffled yna yn dy law?”

“Shwmae, Hazel. Siarter y Bobl yw hwn,” meddai George, gan ei ddal i fyny gyda balchder. “Fe argraffon ni ddigon o gopiau fel y gallai pawb ym Mhont-y-pŵl ddarllen am ein chwe gofyniad i’r Senedd.”

“O, dwi wedi clywed am y Siarter, ond ddim yn gallu cofio beth oedd y chwe gofyniad. Alli di ddweud wrthon ni?”

“Wrth gwrs!” gwenodd George. “Dwi’n eu gwybod nhw ar fy nghof! Gofyniad rhif un: Y bleidlais i bob dyn. Nid oedd yn deg bod cyn lleied o bobl yn cael llais. Beth am bobl fel fi a’m ffrindiau? Roedden ni’n gweithio’n galed ac yn cyfrannu at gymdeithas. Fe ddylen ni fod yn gallu pleidleisio, er doedden ni ddim yn berchen ar dir nac eiddo!”

Mae Hazel yn codi pawen i fyny. “Oedd rhif dau yn ymwneud â’r bleidlais i fenywod?”

Mae George yn pesychu. “Ym, na, yn anffodus. Ddaeth hynny’n ddiweddarach o lawer. Rhif dau oedd y gofyniad am bleidlais gudd, sy’n golygu’r hawl i bleidleisio’n breifat. Ni ddylai neb gael ei lwgrwobrwyo na’i fwlio i bleidleisio dros yr ymgeisydd yr oedd ei landlord neu ei gyflogwr ei eisiau!

“Nesaf, fe ddylai unrhyw ddyn, cyfoethog neu dlawd, allu sefyll am etholiad fel Aelod Seneddol,” meddai, “a chael ei dalu i wneud y gwaith. Dyna ofynion tri a phedwar.

“Ac yn olaf, roedd pwyntiau pump a chwech yn ofynion am ardaloedd o’r un maint ar gyfer pleidleisio, ac am seneddau blynyddol, neu etholiadau blynyddol, i wneud y system yn decach.”



“Maen nhw’n swnio fel gofynion teg,” meddai Hazel. “Ond o ble ddaeth dy egni i brotestio ar ôl gweithio oriau hir fel saer coed? Roeddetsi siŵr o fod wedi blino mwy na gwiwer sy’n claddu cnau ar gyfer y gaeaf!”

Mae George yn ochneidio. “Ie, roeddwn i wedi blino’n lân. Roeddwn i’n gweithio o fore gwyn tan nos, chwe diwrnod yr wythnos, ond doedd dim mynd i newid neu wella os na fydden ni’n dod at ein gilydd a gwneud rhywbeth. Roedd cyfarfodydd Siartiaeth yn bwysig ... roedd rhaid i ni ymladd dros ein hawliau! Roeddwn i’n gobeithio bod yn dad ryw ddydd, ac roeddwn i eisiau i fywyd fod yn well i’m plant.”

FFEIL FFEITHIAU

Roedd George Shell yn 19 oed yn unig pan gerddodd o Bont-y-pŵl i Gasnewydd i ymuno â thua 4,000 o brotestwyr a oedd wedi casglu o bob rhan o dde-ddwyrain Cymru ar noson dywyll, stormus ar 4 Tachwedd 1839. Rydyn ni’n galw’r digwyddiad hwn yn Wrthryfel Casnewydd. Roedd y gorymdeithwyr yn mynnu bod eu cyd-Siartwyr a oedd wedi’u harestio ac yn cael eu dal yng Ngwesty Westgate yn cael eu rhyddhau.

Ond, fel golygfa o *Star Wars*, roedd yr awdurdodau lleol wedi twyllo’r Siartwyr gwrthryfelgar, ac roedd milwyr yn aros amdanyn nhw yn y gwesty. Saethwyd y gorymdeithwyr wrth iddyn nhw nesáu.

Anafwyd llawer, a lladdwyd o leiaf 22 o ddynion. George oedd yr ieuengaf i farw y noson honno. Roedd wedi ysgrifennu llythyr at ei rieni cyn gadael Pont-y-pŵl.

Ar ôl Gwrthryfel Casnewydd, cafodd William Jones ac arweinwyr eraill y Siartwyr, gan gynnwys arweinydd Casnewydd, sef John Frost, eu harestio, eu rhoi ar brawf am fradwriaeth a’u hanfon ar long i Awstralia fel carcharorion!

*‘...Heno, byddaf yn
brwydro dros ryddid
ac, os gwêl yn dda,
bydd Duw yn arbed
fy mywyd, ac fe’ch
gwelaf cyn hir; ond os
na, peidiwch â galaru
amdanaf, byddaf
yn marw dros achos
mawrfrydig...’*

EICH TRO CHI

SYNHWYRAU SHELL

Dychmygwch mai chi yw George Shell, yn gorymdeithio i lawr y bryn tuag at Westy Westgate yng Nghasnewydd, ar ôl y daith hir o Bont-y-pŵl. Cofiwch ei bod hi'n aeaf ac yn bwrw'n drwm, a'ch bod chi gyda miloedd o Siartwyr eraill, sy'n rhannu'r un credoau â chi. Mae eich ffrindiau wedi cael eu harestio am ofyn am y newidiadau yn Siarter y Bobl.

Tybed beth allech chi ei weld, ei glywed, ei arogleuo, ei flasu a'i gyffwrdd? Yn olaf, beth neu sut byddech chi'n teimlo? Fe allai hyn gynnwys teimladau corfforol, fel teimlo'n flinedig neu'n oer; a hefyd emosiynau, fel teimlo'n ddig neu'n ofnus.

Weld:

Glywed:

Arogleuo:

Flasu:

Gyffwrdd:

Teimlo:



“Diolch am esbonio!” gwenodd Hazel. “Dewch ymlaen, Gyrchwyr Stori, mae’n bryd i ni groesi Afon Lwyd i gyfarfod â’n hail ysbryd ... a darganfod pwy, neu beth, yw’r ail gragen yn y stori yma. Wyt ti’n dod hefyd, George?”

Mae George yn nodio’i ben, ac mae Hazel yn chwifio’i phawen ato i’w annog i ddilyn wrth iddi sgrafangu i ffwrdd i Barc Pont-y-pŵl.

EICH TRO CHI

PUM MUNUD AR DROED I’R ARHOSFAN NESAF

Cerddwch drwy’r Gerddi Eidalaid, croeswch yr afon dros y bont ac ewch i mewn i Barc Pont-y-pŵl hyd nes y gallwch weld Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban.

“Mae Parc Pont-y-pŵl mor hyfryd, yn dydy George? Dwi’n wiwer lwcus i fyw yma a chael cymaint o le i grwydro. Mae byd natur yn codi’r ysbryd!”

Mae George yn gwgu. “Nid parc oedd e pan oeddwn i’n fyw. Neu’n barc y gallai pawb ei fwynhau, o leia’. Dim ond un pâr allai ei fwynhau, ac roedden nhw’n byw ym Mhlasty Parc Pont-y-pŵl, sef yr ysgol hon bellach. Dychmyga hynny! Lle mor fawr ar gyfer dau berson, tra bod y gweddill ohonon ni’n byw mewn tai gorllawn ar ochr arall yr afon.”



“Nid ni’n dau oedd yno yn unig,” meddai llais. “Roedd llawer o weision yn byw yn y tŷ ... a mwy o weithwyr yn y stablau ac ar y tir.”

Mae George yn troi i weld pwy sydd yno, ac yna’n rhoio ei lygaid pan fydd yn adnabod y person sy’n siarad. “Wel, mae hynny’n iawn ’te, yn dydy? Maddeuwch i fi!”

Mae hen fenyw’n pwdu. “Beth sy’n bod ar ddarparu swyddi i bobl leol?” mae hi’n gofyn i George. “Roedd cannoedd o deuluoedd ym Mhont-y-pŵl yn dibynnu arnon ni am eu bywoliaeth, gan gynnwys yr holl weithwyr yng ngwaith haearn a thunplat fy ngŵr.”

“O! Eich gŵr, Capel Hanbury Leigh,” meddai George. “Dwi’n hen gyfarwydd ag e a beth oedd yn ei feddwl amdanon ni Siartwyr! Fe ges i fy saethu oherwydd dynion fel fe! Fe helpodd i’n twyllo ni gyda’r milwyr yng Ngwesty Westgate.”



“Dyna ddigon, chi’ch dau! Dwi ddim wedi cael cyfle i gyflwyno Molly i’n Cyrchwyr Stori eto, ac rydych chi’n dadlau’n barod!” Mae Hazel yn twtio ei blew. “Bawb, dyma Molly Hanbury Leigh, ein hail ysbryd.”

Mae George a Molly yn anwybyddu Hazel ac yn parhau i ddadlau.

“Fe gest ti dy saethu oherwydd fe benderfynaist ti orymdeithio i Gasnewydd, ’ngwas i,” meddai Molly’n swrth. “Nid fy ngŵr oedd ar fai am hynny. Ei gyfrifoldeb e, fel Arglwydd Raglaw, oedd cadw’r heddwch ac atal torf afreolus rhag achosi trafferth.”

Mae George yn ysgwyd ei ben yn grac. “Nid torf afreolus oedden ni. Roedden ni’n sefyll dros ein hawliau a Siarter y Bobl! Oedd eich gŵr yn talu ei weithwyr yn deg? Oedden nhw’n cael gwyliau a help pan oedden nhw’n sâl, wedi anafu neu’n rhy hen i weithio? Fe allen nhw fod wedi codi’r pethau hynny os oedd ganddyn nhw’r hawl i bleidleisio.”

“Wel ... ddim yn hollol,” meddai Molly. “Ond fe roddodd Capel arian i adeiladu’r wyrchw, ac un gaeaf caled, fe dalais i fenywod a phlant i addurno’r groto ar y bryn â chregyn, fel y gallen nhw ennill ychydig geiniogau am fwyd. Falle dy fod ti’n un o’r plant yna, George? Fe ddywedodd fy ffrindiau i gyd ei fod yn edrych mor bert, pan gawson ni bicnics yno. Dwi’n dwlu ar gregyn!”



“Picnics a chregyn!” meddai George. “Does gennych chi ddim clem sut beth yw bod yn dlawd, nac oes? ‘Sdim rhyfedd y cawson ni gymaint o drafferth argyhoeddi pobl fel chi am ein Siarter!”

“Wel, beth amdana’ i? Roedd yn frawychus meddwl y gallech chi Siartwyr feddiannu ein tŷ neu ymosod arnon ni!” atebodd Molly.

Mae George a Molly yn dechrau cerdded trwy’r parc tuag at y maes chwarae. Mae Hazel yn ysgwyd ei phen.

“Dwi ddim yn credu y byddai George a Molly wedi cyd-dynnu pan oedden nhw’n fyw, tasen nhw erioed wedi cyfarfod ... a dydyn nhw ddim nawr eu bod nhw’n ysbrydion, yn sicr!



“Mae’n siŵr eich bod chi wedi dyfalu mai’r ail gragen yn ein stori yw groto cregyn Molly. Wel, a bod yn fanwl gywir, mae’n LLAWER o gregyn, gan gynnwys rhai a gasglodd Molly ei hun, yn ogystal â rhai dannedd ac esgyrn anifeiliaid. Ych!”

EICH TRO CHI

ARWYDDEIRIAU AC ARFBEISIAU

Ymadrodd byr yw arwyddair i gynrychioli ac uno teulu, sefydliad fel ysgol, neu wlad, hyd yn oed. Arwyddlun teuluol unigryw yw arfbais, a ddefnyddiwyd yn wreiddiol fel logo i adnabod marchogion mewn arfwisg. Ar y dudalen nesaf, fe welwch chi ddau gerdyn cymeriad. Mae cerdyn Molly’n cynnwys dau arwyddair a dwy arfbais, oherwydd bod ganddi ddau gyfenw. Nid oedd gan George y naill na’r llall, oherwydd dim ond teuluoedd cyfoethog oedd â nhw.

Molly Hanbury Leigh

1768–1846



Cartref: Plasty
Parc Pont-y-pŵl

Galwedigaeth: gwraig a
chymdeithaswraig

Cyfoeth: £££

Hobïau: llawer, gan
gynnwys casglu cregyn a
phicnics gyda ffrindiau

Hawliau pleidleisio: dim

Arwyddair: Hanbury
– *Et bello et pace /*
Mewn rhyfel a heddwch
(Lladin), Leigh – *Tout*
vient de Dieu / O Dduw y
daw pob peth (Ffrangeg)

Arfbais:



George Shell

1820–1839



Cartref: rhentu
ystafell mewn tŷ

Galwedigaeth: saer coed

Cyfoeth: £


Hobïau: rhy flinedig ar ôl
gwaith am hobïau

Hawliau pleidleisio: dim

Arwyddair:



Arfbais:



Tynnwch lun arfbais deulu ar gyfer George Shell. Fe allai gael ei hysbrydoli gan ei enw, ei waith fel saer coed, neu rywbeth arall. Allwch chi feddwl am arwyddair ar ei gyfer? Efallai rhywbeth yn gysylltiedig â'i greddau fel Siartydd, neu'r llythyr a ysgrifennodd at ei rieni?

Beth amdanoch chi? Beth fyddai arwyddair eich teulu? Rhowch gynnig ar ddylunio arfbais ar gyfer eich teulu!

“Sylwoch chi ar yr unig beth oedd yn gyffredin rhwng George a Molly?” mae Hazel yn gofyn. “Nid oedd y naill na’r llall yn cael pleidleisio! Falle dylen nhw roi’r gorau i ddadlau am eu gwahaniaethau a siarad am hynny yn lle ... a’r ffaith nad yw gwiwerod yn gallu pleidleisio ’chwaith!”



EICH TRO CHI

PUM MUNUD AR DROED I'R ARHOSFAN NESAF

Cerddwch drwy Barc Pont-y-pŵl tuag at y maes chwarae o flaen Canolfan Byw'n Egnïol Halo Pont-y-pŵl. Dewch o hyd i'r offerynnau cerdd yn y maes chwarae.

“Mae George a Molly’n cweryla o hyd, felly mae angen i mi ddod o hyd i rywbeth i dynnu fy sylw,” ochneidiodd Hazel. “Falle bydd y drymiau a’r pibau yn y maes chwarae’n gwneud y tro ... gadewch i ni wneud *Hanes Dwy Gragen* yn sioe gerdd! Wnewch chi fy helpu?”



FFEIL FFEITHIAU

Roedd Siartwyr yn defnyddio drymiau yn aml, a oedd yn ddefnyddiol i gadw rhythm cyson wrth orymdeithio. Roedden nhw hefyd yn canu caneuon, a oedd yn helpu i godi eu hysbryd a chreu ymdeimlad o gymuned. Roedd hyd yn oed Llyfr Emynau Cenedlaethol y Siartwyr, a gyhoeddwyd ym 1845, ac 'Anthem y Siartwyr' a gyfansoddwyd gan Ben Boucher ym 1847. Dyma'r pennill olaf:

*Speak with one voice, we march we rest,
And march again upon the year,
Sons of our sons are listening,
To hear the Chartist cheers,
Oh, to hear the Chartist cheers.*



EICH TRO CHI

ANTHEMAU ARBENNIG

Allwch chi gyfansoddi alaw ar gyfer y pennill o 'Anthem y Siartwyr'? Defnyddiwch offerynnau'r maes chwarae i'ch helpu. Nawr, cyfansoddwch eich anthem eich hun. Fe allai fod am y Siartwyr, neu rywbeth arall sy'n bwysig i chi. Ysgrifennwch y geiriau isod:

“Beth yw’r gân yna?” mae George yn gofyn, gan gerdded tuag at yr offerynnau.

“Mae’n dda iawn,” meddai Molly. “Dwi’n dwlu ar ganu!”

“A fi!” gwenodd George. “Fe ddywedodd William Jones fod gen i lais da. Roeddwn i’n arwain y canu yn ein holl gyfarfodydd.”

“O, dyna hyfryd. Wnei di ddysgu un o dy ganeuon i mi?” mae Molly’n gofyn.

Mae George yn nodio’i ben. “Dewch ymlaen, gadewch i ni gerdded i fyny i byllau Nant-y-Gollen a chwilio am weision y neidr. Fe ddysga i gân i chi ar y ffordd.” Mae e a Molly yn chwifio ffarwél wrth Hazel ac yn mynd i fyny’r llwybr tua’r pyllau.



“Ffiw! Maen nhw wedi rhoi’r gorau i ddadlau o’r diwedd! Does dim byd o’i le ar anghytuno ynglŷn â gwleidyddiaeth, a chodi’ch llais ynglŷn â beth sy’n bwysig i chi, ond mae hefyd yn beth da cofio bod gennym ni i gyd bethau’n gyffredin, fel mwynhau cerddoriaeth. Roeddech chi’n help mawr i mi. Diolch!”

EICH TRO CHI

TAIR MUNUD AR DROED I'R ARHOSFAN OLAF

Cerddwch (neu gorymdeithiwch!) drwy Barc Pont-y-pŵl tuag at y tŵr cloc.

“Mae ein hanes bron â gorffen, Gyrchwyr Stori,” meddai Hazel, “ond mae gennym ni *AMSER* am un arhosfan arall ... Cloc Goffa Arthur Jenkins! Felly, pwy yw Arthur a beth yw ei ran yn ein stori?

“Gadewch i ni wibio ymlaen trwy hanes o Wrthryfel Casnewydd ym 1839 i'r flwyddyn 1935. Dyna pryd y daeth glöwr o'r enw Arthur Jenkins, a anwyd gerllaw, yn Aelod Seneddol. Dyn dosbarth gweithio, yn cael ei ethol i gynrychioli pobl leol yn y llywodraeth ... yr union beth yr oedd Siarter y Bobl yn gofyn amdano! Talwyd cyflog iddo hefyd, hyd yn oed!



“Dyna beth yw cylch cyflawn! O William Jones y gwneuthurwr watshis, George Shell a'r Siartwyr, gyda'u brwdfrydedd am gyfiawnder a'u gobaith am newid, i gloc coffa sy'n ein hatgoffa o'r hyn sy'n bosibl pan fyddwn yn sefyll dros ein hawliau democrataidd gyda'n gilydd. A'r ffordd hawsaf o wneud hynny yw pleidleisio mewn etholiadau. Cofiwch, brwydrwyd yn galed i ennill yr hawl honno i chi!”



FFEIL FFEITHIAU

Ym 1867 a 1884, rhoddwyd yr hawl i bleidleisio i fwy o ddynion, ond ni chafodd rai menywod yr hawl i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol tan ar ôl mudiad y Swffragetiaid (1903–1914). Fe allech ofyn i oedolyn am y Swffragetiaid os hoffech ddysgu mwy.

Erbyn 1928, fe allai pob dyn a menyw dros un ar hugain oed bleidleisio, a ostyngwyd i ddeunaw ym 1969.

“Gobeithio y mwynhaoch chi *Hanes Dwy Gragen*. Dwi’n mynd nawr i wyllo mwy o bobl, neu falle dod o hyd i gnau a gladdais i’r hydref diwethaf. Ond cyn i mi fynd, mae un gweithgaredd olaf i’w gwblhau. Mwynhewch!”



EICH TRO CHI

CERDD ACROSTIG

Mewn cerdd acrostig, mae llythyren gyntaf pob llinell yn sillafu gair pan gaiff ei ddarllen yn fertigol, yn gysylltiedig â thema'r gerdd. Dyma gerdd acrostig ar thema Siartiaeth a gyfansoddwyd gan Women of Wisdom ym Mhont-y-pŵl. Fe ddewiswn nhw PONTYPŴL fel eu gair.

*People of Ponty,
Our hearts marched as one,
Newport was our destination,
Tirelessly and without hesitation,
Yearning for our rights,
Persevering through wind and rain,
Walking warriors with our six aims,
Lanterns guiding us all the way.*

Gan eich bod chi bellach yn gwybod mwy am Siartiaeth yn ne Cymru, ceisiwch gyfansoddi cerdd acrostig eich hun. Fe allwch ddewis unrhyw air fertigol, ond dyma rai awgrymiadau:


SIARTWYR PLEIDLEISIO PROTEST HAWLIAU



EICH TRO CHI

Gartref, fe allwch ysgrifennu'ch cerdd, neu'r anthem a gyfansoddoch chi'n gynharach, ar ddarn o bapur A4 gwyn neu liw. Dan oruchwyliaeth oedolyn, gwnewch lusern allan o'r papur. Cofiwch, peidiwch BYTH â rhoi kannwyll na fflam arall y tu mewn i lusern papur. Os oes gennych kannwyll fach sy'n cael ei phweru gan fatri, fe allech ddefnyddio honno i oleuo'ch llusern, a gweld eich geiriau'n disgleirio!

LLUSERNAU PAPUR



Gobeithio y mwynhaoch chi'r antur Cyrch Stori yma gyda Hazel, George a Molly.

Cyn i chi adael, fe allwch:

- Ailymweld ag unrhyw arosfannau yr hoffech dreulio mwy o amser ynddyn nhw – allwch chi weld unrhyw fywyd gwyllt ar eich ffordd?
- Benthycu llyfr o Lyfrgell Pont-y-pŵl
- Ymweld ag Amgueddfa Torfaen a dysgu mwy am hanes Pont-y-pŵl (gwiriwch yr oriau agor yn www.torfaenmuseum.org.uk)
- Ymweld â'r wefan i gael manylion Cyrchoedd Stori eraill yn ne Cymru

A chofiwch ... does dim rhaid i chi fod yn oedolyn i wneud gwahaniaeth. Mae pennod nesaf hanes yn dechrau gyda CHI.

Welwn ni chi ar eich antur Cyrch Stori nesaf!

Diolchiadau

Hoffai tîm Lleisiau ar gyfer y Dyfodol ddiolch i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Simone Greenwood, Andy O'Rourke, grŵp Women of Wisdom, the Lighthouse, Amgueddfa Torfaen, Trosol, Pont Collective a chymuned Pont-y-pŵl am ein helpu i gyflawni'r prosiect hwn.